

Rheoli asbestos mewn adeiladau:

Cyfarwyddyd cryno



Fersiwn i'r we o daflen
INDG223W(rev5), a
adolygwyd 04/12 yw hwn

Ar gyfer pwy mae'r cyfarwyddyd hwn?

Mae'r cyfarwyddyd hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw a thrwsio mewn adeilad allai gynnwys asbestos. Mae'r 'ddyletswydd i reoli' asbestos wedi ei gynnwys yn y Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012. Rydych yn 'ddeiliad dyletswydd' os:

- mai chi yw perchennog yr adeilad;
- ydych yn gyfrifol trwy contract neu gytundeb tenantiaeth;
- oes gennych reolaeth o'r adeilad ond dim contract na chytundeb ffurfiol; neu
- mewn adeilad amlddeiliadaeth, os mai chi yw'r perchennog a'ch bod wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw a thrwsio'r adeilad cyfan.

Pa adeiladau sydd wedi eu heffeithio?

- Unrhyw adeiladau annomestig, ni waeth beth yw'r math o fusnes.
- Ardaloedd cyffredin adeiladau domestig, e.e. neuaddau, grisiau, siafftiau lifftiau, lifftiau, gofod nenfwd.
- Nid oes unrhyw eiddo domestig arall wedi eu heffeithio gan y ddyletswydd i reoli.

Os nad chi yw'r deiliad dyletswydd ond bod gennych wybodaeth am yr adeilad, rhaid i chi gydweithredu gyda'r deiliad dyletswydd, e.e. rhaid i ddeiliaid prydlesau ganiatáu mynediad i asiantiaid rheoli ar gyfer archwilio.

Pam rheoli asbestos?

Gall anadlu aer sy'n cynnwys ffibrau asbestos arwain at glefydau yn ymwneud ag asbestos, yn bennaf canserau'r ysgyfaint a leinin y frest. Dim ond os yw'r ffibrau yn cael eu rhyddhau i'r aer a'u hanadlu i mewn mae asbestos yn achosi risg i iechyd. Ar hyn o bryd mae amlygiad yn y gorffennol i asbestos yn lladd oddeutu 4,500 o bobl y flwyddyn ym Mhrydain Fawr. Mae gweithwyr sy'n cyflawni gwaith cynnal a chadw a thrwsio dan risg arbennig.

Fel arfer mae oedi hir rhwng amlygiad cyntaf i asbestos a chychwyn y clefyd. Gall hyn amrywio o 15 i 60 mlynedd. Dim ond trwy atal neu isafu'r amlygiadau hyn nawr y gellir lleihau'r niferoedd o glefydau yn ymwneud ag asbestos.

Mae nawr yn anghyfreithiol i ddefnyddio asbestos wrth adeiladu neu ailwampio unrhyw eiddo, ond defnyddiwyd nifer o filoedd o dunelli ohono yn y gorffennol ac mae dipyn ohono dal yn ei le. Mae tri phrif fath o asbestos yn dal i'w gael mewn adeiladau, a elwir yn gyffredin yn 'asbestos glas' (crosidolit), 'asbestos brown'

(amosit) ac 'asbestos gwyn' (crysotil). Mae pob un ohonynt yn garsinogenau peryglus, ond mae asbestos glas a brown yn fwy peryglus na gwyn. Er gwaethaf eu henwau, ni allwch eu hadnabod yn ôl eu lliw yn unig.

Gallai unrhyw adeiladau a adeiladwyd neu a ailwampwyd cyn y flwyddyn 2000 gynnwys asbestos. Cyn belled â bod y deunydd sy'n cynnwys asbestos (ACM) mewn cyflwr da, ac nad yw'n cael neu'n mynd i gael ei darfu neu ddifrodi, nid oes risg. Ond os yw'n cael ei darfu neu ddifrodi, gall fod yn beryglus i iechyd, oherwydd gallai rhywun anadlu ffibrau asbestos sy'n cael eu rhyddhau i'r awyr.

Pwy sydd dan risg?

Po fwyaf o ffibrau asbestos sy'n cael eu hanadlu i mewn, y mwyaf yw'r risg i iechyd. Felly, mae gweithwyr sydd wedi eu hamlygu i asbestos wrth gyflawni gwaith cynnal a chadw a thrwsio dan risg arbennig. Mae gweithwyr o'r fath yn cynnwys:

- Contractwyr adeiladu a dymchwel, towyr, trydanwyr, peintwyr ac addurnwyr, asiedyddion, plymwyr, gosodwyr nwy, plastrwyr, dodrefnwyr siopau, peirianwyr gwresogi ac awyru, a syrfewyr;
- Unrhyw un sy'n delio ag electroneg, e.e. peirianwyr ffôn a TG, a gosodwyr larymau;
- Peirianwyr cynnal a chadw cyffredinol ac eraill sy'n gweithio ar ddeunydd adeilad.

Os oes yna asbestos yn bresennol y gellir ei darfu'n hawdd, sydd mewn cyflwr gwael a heb ei reoli'n iawn, gallai eraill sy'n anheddu'r eiddo fod dan risg.

Ble mae asbestos i'w ganfod mewn adeiladau?

Defnyddiwyd asbestos mewn sawl rhan o adeiladau, isod ceir sampl o ddefnyddiau a lleoliadau ble gellir dod o hyd i asbestos?

Cynnyrch asbestos	Ar gyfer beth y'i defnyddiwyd
Asbestos chwistrell (limpet)	Amddiffyn rhag tân mewn cwndidau ac i waith dur strwythurol, atalfeydd tân mewn gwagle nenfwd
Ynysydd	Ynysiad thermol o bibellau a boeleri
Byrddau ynysu asbestos (AIB)	Amddiffyn rhag tân, ynysiad thermol, parwydydd, cwndidau, soffitiau, paneli nenfwd
Cynnyrch sment asbestos, dalennau rhychog neu fflat	Cladin toeau a walïau, gwteri, pibellau dŵr glaw, tanciau dŵr
Caenau gweog penodol	Plastrau addurniadol, paent
Bitwmen neu ddeunydd finyl	Ffelt to, teils llawr a nenfwd

Mae rhai ACMs yn fwy bregus ac yn fwy tebygol o ryddhau ffibrau nag eraill. Yn gyffredinol, mae deunydd sy'n cynnwys canran uchel o asbestos yn haws i'w difrodi. Mae'r tabl uchod yn dilyn trefn fras pa mor hawdd yw hi i ryddhau ffibrau (gyda'r un â'r potensial uchaf yn gyntaf). Mae caenau, ynysydd a byrddau insiwleiddio chwistrell yn fwy tebygol o gynnwys asbestos glas neu frown. Gall ynysydd asbestos gynnwys hyd at 85% o asbestos ac mae'n fwy tebygol o ryddhau ffibrau. Gall gweithio gyda AIB arwain at ryddhad uchel o ffibrau hefyd os defnyddir offer pŵer. Ar y llaw arall, mae sment asbestos yn cynnwys 10-15% o asbestos yn unig. Mae'r asbestos wedi ei glymu'n gaeth i'r sment a dim ond os yw wedi ei difrodi'n ddrwg neu ei dorri a fydd yn rhyddhau ffibrau, neu os gweithir arno (e.e. ei ddrilio, torri ac ati).

Deunydd â risg uchel



Ynysiad pibell asbestos



Bwrdd ynysu asbestos (AIB)



Teils nenfwd AIB tyllog



Drws gyda phanel AIB

Deunydd fel arfer â risg is



Cladin wal sment asbestos Teils llawr yn cynnwys asbestos



Cofiwch, er mai dyma ble mae'n fwyaf tebygol y defnyddiwyd asbestos ac y byddwch yn dod o hyd iddo, fe'i defnyddiwyd mewn nifer o ddeunyddiau eraill. Os oes amheuaeth, mae'n well tybio fod deunydd yn cynnwys asbestos, oni bai fod yna dystiolaeth bendant nad yw.

Beth mae'r ddyletswydd i reoli asbestos yn golygu?

Mae'r ddyletswydd i reoli asbestos wedi ei chynnwys yn y Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012. Mae'r ddyletswydd yn gofyn i chi reoli'r risg o asbestos trwy:

- ganfod a oes yna asbestos yn yr adeilad (neu asesu a yw'n debygol fod yna ACMs yn bresennol a thybio bod deunyddiau yn cynnwys asbestos, oni bai bod gennych dystiolaeth bendant nad ydynt), ei leoliad a beth yw ei gyflwr;
- creu a chadw cofnod cyfredol o leoliad a chyflwr ACMs neu ACMs tybiedig yn eich eiddo;
- asesu'r risg o'r deunydd;
- paratoi cynllun sy'n manylu sut ydych yn mynd i reoli'r risg o'r deunydd hwn;
- cymryd camau i roi'ch cynllun ar waith;
- adolygu a monitro eich cynllun a'r trefniadau a wnaed i'w roi ar waith; a
- sefydlu system i ddarparu gwybodaeth ar leoliad a chyflwr y deunydd i unrhyw un sy'n debygol o weithio arno neu ei darfu.

Gofynnir i unrhyw un sydd â gwybodaeth ar leoliadau asbestos yn eich eiddo ei ddarparu i chi fel deiliad dyletswydd, ond bydd angen i chi asesu ei ddibynadwyedd. Rhaid i'r sawl nad ydynt yn ddeiliaid dyletswydd, ond sy'n rheoli mynediad i'r eiddo, gydweithredu â chi o ran rheoli'r asbestos.

Sut allwch chi gydymffurfio â'r ddyletswydd?

Mae'r adran hon yn rhoi gwybod i chi beth sydd angen i chi wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Ceir rhestr wirio yn sefydlu'r broses gyfan o reoli'r risg o asbestos ymhellach yn y daflen hon. Gallwch ei defnyddio i wirio eich bod yn cymryd y camau priodol. Os byddai'n well gennych, ar wefan yr HSE ceir offeryn sy'n mynd trwy'r camau gyda chi (www.hse.gov.uk/asbestos/managing/index.htm).

Er y gallwch benodi unigolyn cymwys i gyflawni'r gwaith i gyd neu ran o'r gwaith i fodloni gofynion y ddyletswydd, bydd rhaid i chi fod yn gysylltiedig â'r asesiad terfynol o risg posibl. Yn benodol, byddwch yn gwybod sut y defnyddir yr eiddo a pha aflonyddiad sy'n debygol o ddigwydd. Mae'r adran 'Cam 2 – Asesu cyflwr unrhyw ACMs' yn darparu cyngor ar wneud hyn.

Cofiwch, chi sy'n dal i fod yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd i reoli'r risgiau posibl os ydych yn gyfrifol am gynnal rhannau perthnasol o adeilad.

► Cam 1 Canfod a oes asbestos yn bresennol

- A gafodd yr adeilad ei adeiladu neu ailwampio cyn 2000?
 - Os Do, tybiwch fod yna asbestos yn bresennol.
 - Os Na, mae'n annhebyg fod yna asbestos yn bresennol – nid oes angen gweithredu.
- A oes gennych eisoes wybodaeth ar asbestos yn eich adeilad?
- Cerddwch o amgylch eich adeilad i nodi'r holl ACMs neu ACMs tybiedig, yn cynnwys rhannau na ymwelir â nhw fel arfer fel gofod nenfwd, ystafelloedd storio ac ati.

Efallai y bydd ACMs yn bresennol os adeiladwyd neu ailwampiodd yr adeilad cyn 2000. Gwaharddwyd unrhyw ddefnydd o asbestos erbyn 1999. Rhaid i chi wneud popeth o fewn rheswm i'w canfod trwy:

- edrych ar gynlluniau adeiladau ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol, fel anfonebau adeiladwyr allai ddweud wrthych os a ble defnyddiwyd asbestos wrth adeiladu neu ailwampio'r eiddo;
- cynnal archwiliad trylwyr o'r eiddo tu fewn a thu allan ac i nodi deunyddiau sydd, neu a allai fod, yn asbestos; ac
- ymgynghori ag eraill, fel penseiri, cyflogeion neu gynrychiolwyr diogelwch, a allai eich darparu â rhagor o wybodaeth ac sydd â dyletswydd i gydweithredu trwy ddarparu hyn.

Os yw oed yr adeilad neu'r wybodaeth a gasglwch yn darparu tystiolaeth bendant nad oes unrhyw ACMs yn bresennol, yna nid oes rhaid i chi wneud dim ac eithrio cofnodi pam fod y dystiolaeth hon yn dynodi nad oes asbestos yn bresennol.

Dylech dybio bod unrhyw ddeunydd yn cynnwys asbestos oni bai bod yna dystiolaeth gref i awgrymu nad oes. Yn amlwg nid yw rhai deunyddiau yn cynnwys asbestos megis gwydr, drysau pren solet, estyll, brics a charreg.

▼ Nesaf: Ymlaen i Gam 2

► Cam 2 Asesu cyflwr unrhyw ACMs

- Asesu swm a chyflwr unrhyw ACMs, neu ACMs tybiedig yn yr adeilad i roi gwybod i chi pa mor debygol ydynt o ryddhau ffibrau asbestos i'r aer.

Bydd y math o ACM, faint ohono sydd a'i gyflwr yn pennu ei botensial i ryddhau ffibrau asbestos i'r aer, os y'i dosbarthir. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu beth sydd angen i chi wneud nesaf. Gellir ystyried cyflwr ACMs trwy ddelio â chyfres o gwestiynau:

- A yw arwyneb y deunydd wedi ei ddifrodi, treulio neu grafu?
- A yw sêl yr arwyneb yn pilio neu'n torri i ffwrdd?
- A yw'r deunydd yn dod yn rhydd o'i waelod? (Mae hyn yn broblem arbennig gydag ynysydd pibellau a boeler a chaenau chwistrell.)
- A yw gorchuddion amddiffyn, a gynlluniwyd i amddiffyn y deunydd, ar goll neu wedi difrodi?
- A oes yna lwch neu rwbel asbestos o ganlyniad i ddifrod yn agos at y deunydd?

Os yw'r ACMs yn eich eiddo mewn cyflwr gwael, bydd angen i chi drefnu i'w hatgyweirio neu eu selio, amgáu neu gael gwared arnynt.

▼ Nesaf:

- Os ydych wedi penderfynu tybio mai asbestos yw deunydd ac nad oes gennych unrhyw waith cynnal a chadw na thrwsio ar y gweill, ac nad oes unrhyw ACMs mewn cyflwr gwael, gallwch fynd yn syth i Gam 4.
- Os oes gennych ACMs mewn cyflwr gwael, neu os ydych yn bwriadu gwneud gwaith, neu eisiau bod yn siŵr a oes asbestos yn bresennol, ewch ymlaen i Gam 3.

Cofiwch, os ydych yn tybio ei fod yn asbestos ond eich bod eisiau cwblhau'r gwaith yn hwyrach, bydd rhaid i chi naill ai fynd i Gam 3 neu sicrhau bod y gwaith wedi ei gyflawni gyda rhagofalon asbestos llawn.

► Cam 3 Arolwg a sampl asbestos

- Trefnwch i unigolyn cymwys priodol gyflawni arolwg i nodi ACMs.
- Dadansoddwch y deunyddiau i brofi a oes asbestos yn bresennol, a pha fath yw.

Gallwch ddewis cyflogi unigolyn cymwys addas i gyflawni arolwg o'r eiddo i nodi ACMs, yn arbennig os ydych yn bwriadu cyflawni gwaith cynnal a chadw neu ailwampio'r eiddo neu osod gwifrau neu bibellwaith/dwythellau. Dylai'r arolwg nodi pa fathau o ACMs sy'n bresennol, ble maent ac ym mha gyflwr y maent. Gofynnwch i'r unigolyn neu sefydliad:

- a ydynt wedi eu hachredu neu ardystio ar gyfer gwaith arolygu asbestos;
- am dystiolaeth o'u hyfforddiant a phrofiad mewn gwaith o'r fath; ac
- am dystiolaeth bod ganddynt yswiriant atebolrwydd priodol.

Mae'r HSE yn darparu rhagor o wybodaeth ar arolygon asbestos yn ei ddogfen cyfarwyddyd HSG264 *Asbestos: The survey guide*.

Os ydych yn amau bod deunyddiau yn cynnwys asbestos, yna efallai y bydd rhaid i chi ddadansoddi'r samplau. Yn aml, dyma'r unig ffordd sicr o nodi a yw deunydd yn cynnwys asbestos. Dim ond pobl sydd wedi derbyn hyfforddiant addas ddylai gymryd samplau.

Peidiwch â thorri na difrodi unrhyw ddeunydd allai gynnwys asbestos i geisio ei nodi.

Mae angen i sefydliadau sy'n samplu a dadansoddi asbestos feddu ar achrediad gan Wasanaethau Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS). Mae UKAS hefyd yn rhedeg cynllun achredu ar gyfer sefydliadau sy'n cyflawni arolygon asbestos. Mae cwmni achrededig yn debygol o gyflogi pobl gymwys ar gyfer y mathau hyn o waith, ond dylech wirio ar gyfer beth mae'r cwmni wedi ei achredu, gan mai dim ond i wneud arolygon a chymryd samplau fydd rhai wedi eu hachredu ac eraill i ddadansoddi samplau yn unig. (Cyfeiriad gwefan UKAS yw: www.ukas.com).

Gall syrfeyr cymwys eraill hefyd gyflawni arolygon os oes ganddynt y cyfuniad priodol o gymhwyster a phrofiad. Fel arfer mae cwmnïau wedi eu rhestru yn y Llyfr Ffôn Tudalennau Melyn a chyfeirlyfrau busnes eraill. Rhestrir sefydliadau sy'n cyflawni dadansoddiad a dynodiad asbestos dan 'labordai' neu 'dadansoddwyr asbestos'. Neu, gallwch gysylltu ag UKAS, gweler www.ukas.com/tools/contact-ukas.asp.

▼ Nesaf: Ymlaen i Gam 4

► Cam 4 Cadw cofnod neu gofrestr ysgrifenedig

- Nodwch yr ACMs yr ydych wedi eu canfod, ble maent a'u cyflwr.
- Cofnodwch rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli asbestos yn eich sefydliad.

Mae angen i chi baratoi cofnod sy'n dangos ble mae'r asbestos neu'r asbestos tybiedig, os gwyddoch pa fath, ei ffurf, a'i gyflwr. Mae angen i'r cofnod hwn fod yn syml, clir ac ar gael ar bob adeg yn yr eiddo er mwyn i chi, neu unrhyw un arall sydd angen, wybod ble mae'r ACMs a gallu dod o hyd iddynt yn ddidrafferth. Gallai fod yn gynllun neu ddiagram, yn rhestr ysgrifenedig neu'n cofnod cyfrifiadurol – gall ei storio yn electronig ei wneud yn haws i'w ddiweddarau.

Efallai y bydd rhai rhannau o'r eiddo na allwch weld, megis mewn toeau a dwythellau gwresogi a thu ôl i baredau wal. Dylech nodi'r rhain ar eich lluniad a thybio y gall fod ACMs yn bresennol, oni bai fod gennych dystiolaeth gadarn i awgrymu nad yw hyn yn debygol. Os ydych wedi cyflogi sefydliad allanol i gyflawni arolwg ar eich rhan, dylent eich darparu â chofnod ysgrifenedig neu â'r wybodaeth i chi allu creu eich cofnod eich hun.

▼ Nesaf: Ymlaen i Gam 5

► Cam 5 Gweithredu ar eich casgliadau

- Dylai eich cynllun gynnwys pasio eich cofrestr asbestos ymlaen at unrhyw weithiwr/contractwr yn cyflawni gwaith cynnal a chadw yn eich eiddo.
- Aseswch y risg posibl o'r ACMs – pa mor debygol yw hi y byddant yn cael eu tarfu?
- Lluniwch gynllun blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

Rhaid i chi asesu a yw'r ACMs yn cael, neu'n debygol o gael, eu tarfu. Ystyriwch y ffactorau canlynol:

- yr wybodaeth a gasglwyd yn y lleoliad, swm a chyflwr yr ACM;
- a yw'r ACM mewn safle ble mae'n debygol o gael ei darfu;
- faint o ACM sy'n bresennol;
- a oes mynediad hwylus i'r ACM;
- a yw pobl yn gweithio ger yr ACM mewn modd sy'n debygol o darfu arno;
- os yw'n agos at ardaloedd ble mae pobl fel arfer yn gweithio pan darfir arno;
- faint o bobl sy'n defnyddio'r ardal ble mae'r ACM; ac
- a yw'n debygol y bydd gwaith cynnal a chadw, ailwampio neu arall yn debygol o ddigwydd yn rhan o'r eiddo ble mae'r ACM.

Bydd angen i chi baratoi a gweithredu cynllun i reoli'r risgiau hyn:

- Rhoi blaenoriaeth uchel i ddeunydd wedi difrodi a deunydd sy'n debygol o gael ei darfu; bydd angen i'r rhain gael eu trwsio, selio, amgáu neu ddi-ddymu gan staff cymwysedig – os nad ydych yn siŵr, ceisiwch gyngor arbenigol gan syrfëwr asbestos, labordy neu gontractwr trwyddedig.
- Os yw'r deunydd mewn cyflwr da a'i bod yn annhebyg y bydd neb yn gweithio na'n tarfu arno, mae fel arfer yn fwy diogel i'w adael yn ei le a'i reoli.

Trwsio a gwaredu

Gellir gwneud rhai mathau o asbestos sydd wedi difrodi yn ddiogel trwy ei drwsio a naill ai ei selio neu amgáu i atal difrod pellach. Os gellir gwneud hyn yn ddiogel, nodwch yr ardal wedi ei drwsio a sicrhau ei fod ar eich cofnod o leoliadau asbestos.

Os yw'n debygol y byddwch yn tarfu ar asbestos yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol neu ddefnydd dyddiol o'r adeilad, bydd yn rhyddhau ffibrau. Os nad yw'n bosibl ei drwsio a'i ddiogelu'n hawdd, yna dylid cael gwared arno. Rhaid i rywun hyfforddedig a chymwysedig i gyflawni'r dasg wneud y gwaith hwn.

Cofiwch, dylai'r rhan fwyaf o waith ar ynysiad asbestos, byrddau a lapiad ynysu asbestos, yn cynnwys selio a chael gwared, gael ei gyflawni gan gontractwr wedi ei drwyddedu gan yr HSE.

Rheoli asbestos a adawyd yn ei le

Os ydych yn penderfynu gadael ACMs neu ACMs tybiedig sydd mewn cyflwr da yn eu lle, sicrhewch ei fod ar eich cofnod a chadw'r wybodaeth hon yn gyfredol.

Rhaid i chi sicrhau yr hysbysir pawb sydd angen gwybod ynglŷn â'r asbestos am ei bresenoldeb, e.e. gweithwyr cynnal a chadw, contractwyr. Gallwch labelu ACMs yn glir gyda'r arwydd rhybudd asbestos neu ddefnyddio system rybuddio arall (er enghraifft, cod lliw).

Os byddwch yn penderfynu peidio labelu'r asbestos, rhaid i chi sicrhau bod y rhai allai weithio ar y deunydd yn gwybod ei fod yn cynnwys neu y gallai gynnwys asbestos cyn iddynt ddechrau gwaith, e.e. wrth i chi ofyn am ddyfynbris ar gyfer gwaith. Yna gallwch gytuno ar y rhagofalon i atal amlygiad.

Gall arbed amser ac atal dryswch os ydych yn gwneud nodyn o leoliad deunydd nad yw'n asbestos, y gellid ei gamgymryd am asbestos.

Cofiwch, rhaid i unrhyw un sy'n gweithio gydag asbestos fod yn gymwysedig ac yn defnyddio dulliau gweithio diogel. Mae angen i'r rhan fwyaf o waith gydag asbestos gael ei gyflawni gan gontractwr trwyddedig.



Label rhybudd asbestos

▼ Nesaf: Ymlaen i Gam 6

► Cam 6 Cadw eich cofnodion yn gyfredol

- Archwiliwch unrhyw ACMs sydd gennych yn eich eiddo yn rheolaidd a diweddarwch eich cofnodion;
- Rhaid monitro ac adolygu effeithiolrwydd eich cynllun gweithredu.

Hyd yn oes wedi cwblhau eich cynllun gweithredu, rhaid i chi barhau i reoli'r risgiau o asbestos a adawyd yn ei le yn eich adeilad. Cerddwch o amgylch eich adeilad i adolygu eich cofnod a'i ddiweddarwch fel fo angen. Edrychwch ar yr ACMs a adawyd yn eu lle, yn cynnwys y rhai yr ydych wedi eu selio neu amgáu, i weld a ydynt wedi dirywio neu wedi eu difrodi neu darfu mewn unrhyw ffordd. Bydd yr amser rhwng archwiliadau yn ddibynnol ar y math o ddeunydd, ei leoliad a'i gyflwr, ond dylai fod o leiaf pob chwech i 12 mis.

Bydd angen i chi wirio bod trefniadau i reoli'r risg a sefydlwyd yn eich cynllun wedi eu rhoi ar waith ac yn gweithio'n effeithiol. Rhaid i chi hefyd adolygu'r cynllun os oes newidiadau arwyddocaol a fydd yn effeithio ar y trefniadau hyn, er enghraifft, os ydych yn gwneud gwahanol fathau o waith ar yr eiddo, neu os byddwch yn cael gwared ar unrhyw ACMs.

Rhestr Wirio

- Canfod** Rhaid i chi wirio a oes deunydd yn cynnwys asbestos yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol
- Cyflwr** Rhaid i chi wirio cyflwr y deunydd
- Tybio** Rhaid i chi dybio bod y deunydd yn cynnwys asbestos oni bai fod gennych dystiolaeth bendant nad yw
- Dynodi** Os ydych yn bwriadu cyflawni gwaith cynnal a chadw neu ailwampio ar yr adeilad neu os nad yw'r deunydd mewn cyflwr da, efallai yr hoffech drefnu i samplu a dynodi'r deunydd gan arbenigwr
- Cofnodi** Cofnodwch y lleoliad a chyflwr y deunydd ar gynllun neu luniad
- Asesu** Rhaid i chi benderfynu yw'r cyflwr neu leoliad yn golygu bod tebygrwydd o darfu ar y deunydd
- Cynllun** Paratowch a gweithredu cynllun i reoli'r risgiau hyn

Mân ddifrod	Cyflwr da
<ul style="list-style-type: none"> ■ Dylid trwsio ac/neu amgáu'r deunydd ■ Dylid monitro cyflwr y deunydd yn rheolaidd ■ Ble fo'n ymarferol, dylid labelu'r deunydd ■ Hysbysu'r contractwr ac unrhyw weithiwr arall sy'n debygol o weithio neu darfu ar y deunydd 	<ul style="list-style-type: none"> ■ Dylid monitro cyflwr y deunydd yn rheolaidd ■ Ble fo'n ymarferol, dylid labelu'r deunydd ■ Hysbysu'r contractwr ac unrhyw weithiwr arall sy'n debygol o weithio neu darfu ar y deunydd
Cyflwr gwael	Tarfu ar asbestos
<ul style="list-style-type: none"> ■ Dylid cael gwared ar unrhyw asbestos sydd mewn cyflwr gwael 	<ul style="list-style-type: none"> ■ Dylid cael gwared ar unrhyw asbestos sy'n debygol o gael ei darfu

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Cyhoeddiadau HSE

A comprehensive guide to managing asbestos in premises HSG227 HSE Books 2002 ISBN 978 0 7176 2381 5 www.hse.gov.uk/pubns/books/HSG227.htm

Asbestos: The survey guide HSG264 (Ail argraffiad) HSE Books 2012 ISBN 978 0 7176 6502 0 www.hse.gov.uk/pubns/books/HSG264.htm

Asbestos essentials: A task manual for building, maintenance and allied trades on non-licensed asbestos work HSG210 (Trydydd argraffiad) HSE Books 2012 ISBN 978 0 7176 6503 7 www.hse.gov.uk/pubns/books/HSG210.htm

Work with materials containing asbestos. Control of Asbestos Regulations 2006. Approved Code of Practice and guidance L143 HSE Books 2006 ISBN 978 0 7176 6206 7 www.hse.gov.uk/pubns/books/L143.htm

The management of asbestos in non-domestic premises. Regulation 4 of the Control of Asbestos at Work Regulations 2006. Approved Code of Practice and guidance L127 (Ail argraffiad) HSE Books 2006 ISBN 978 0 7176 6209 8 www.hse.gov.uk/pubns/books/L127.htm

Want construction work done safely? A quick guide for clients on the Construction (Design and Management) Regulations 2007 Taflen INDG411 HSE Books 2007 (pecynau wedi prisio ISBN 978 0 7176 6246 3) www.hse.gov.uk/pubns/indg411.pdf

Cyhoeddiadau Y Llyfrfa

The Hazardous Waste (England and Wales) Regulations 2005 SI 2005/894 Y Llyfrfa 2005 ISBN 978 0 11 072685 4

The Special Waste Amendment (Scotland) Regulations 2004 Scottish SI 2004/112 Y Llyfrfa 2004 ISBN 978 0 11 069030 8

Cysylltiadau defnyddiol

Asbestos Removals Contractors Association, Unit 1 Stretton Business Park, Brunel Drive, Stretton, Swydd Stafford DE13 0BY Ffôn: 01283 566467 www.arca.org.uk

Asbestos Control and Abatement Division, TICA House, 34 Allington Way, Yarm Road Business Park, Darlington DL1 4QB Ffôn: 01325 466704 www.tica-acad.co.uk

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, RICS HQ, Parliament Square, Llundain, SW1P 3AD www.rics.org

Gwasanaeth Achredu y Deyrnas Unedig, 21–47 High Street, Feltham, Middlesex TW13 4UN Ffôn: 020 8917 8400 www.ukas.com

Mwy o wybodaeth

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd ar anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk/.

Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Mae cyhoeddiadau Y Llyfrfa ar gael gan The Stationery Office, PO Box 29, Norwich NR3 1GN; Ffôn: 0870 600 5522 Ffacs: 0870 600 5533 e-bost: customer.services@tso.co.uk Gwefan: www.tsoshop.co.uk/ (Maent hefyd ar gael o siopau llyfrau.) Gellir gweld offerynnau statudol yn rhad ac am ddim ar www.legislation.gov.uk/.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol, ond allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth ystyried beth sydd angen i chi ei wneud.

Mae'r daflen hon ar gael mewn pecynnau wedi eu prisio gan HSE Books, ISBN 978 0 7176 6520 4. Gellir gweld fersiwn y we yn www.hse.gov.uk/pubns/welsh/indg223.pdf.

©[©] *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 04/12.